# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Diwygiwyd: Ionawr 2025

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Cynnwys


Cynnwys 2

Datganiad Polisi 5

Geirfa 7

Sefydliad 8

Rheoli 8

Cyngor Iechyd, Diogelwch a Lles 8

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau 9

Prif Swyddog Gweithredol 9

Cyfarwyddwyr Corfforaethol 9

Cynghorwyr Sir 10

Penaethiaid Gwasanaeth 10

Rheolwyr a Goruchwylwyr 11

Penaethiaid 11

Gweithwyr 12

Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (IaDC) 12

Iechyd Galwedigaethol 13

Rheolwyr Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth 13

Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau 14

Trefniadau 14

Polisi a Chynllunio 15

## Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol


Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 15

Cofrestr Risg Gorfforaethol 15

Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 15

Cynllunio Rhag Argyfwng a Chadernid Corfforaethol 15

Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr 16

Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Cyfarwyddwyr 16

Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch Adrannol/Gwasanaeth 16

Rheolwr Iechyd a Diogelwch Cyfleuster Unigol 16

Trefniadau Sefydliadol: 16

Dogfennau Canllawiol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 16

Ffurflenni a Thempledi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 17

Fflach Newyddion Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 17

Dogfennau Ymgynghori Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 17

Dogfennau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Gweinydd Rhwydwaith a’r Fewnrwyd) 17

System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) CIVICA 18

Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch a Hysbysfyrddau 18

Cymhwysedd 18

Matrics Hyfforddiant Corfforaethol 18

Rhaglen Cwrs Hyfforddiant Corfforaethol 18

Cymhwysedd Darparwr Hyfforddiant 19

Cofnodion Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch 19

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol


| | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr Undebau IaD | 19 |
| Asesiad Risg | 19 |
| Asesiadau Risg Tân | 19 |
| Mesurau Rheoli | 20 |
| Systemau Gwaith Diogel (gweithdrefnau gweithio’n ddiogel) | 20 |
| Hawlen i Weithdrefnau a Systemau Gwaith | 20 |
| Systemau Gweithio ar eich Pen eich Hun | 20 |
| Gweithio’n Hyblyg | 20 |
| Gweithdrefnau Rheoli Contractwyr | 21 |
| Parodrwydd am Argyfwng | 21 |
| Mesur ac Adolygu | 21 |
| Adrodd ar Ddamweiniau / Digwyddiadau | 22 |
| Ymchwilio i Ddamweiniau | 22 |
| Cofrestr Amddiffyn Staff (CAS) | 23 |
| Cwynion | 23 |
| Teithiau Diogelwch | 23 |
| Iechyd yn ymwneud â Gwaith | 23 |
| Archwiliad | 24 |

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Datganiad Polisi

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol o ran Iechyd, Diogelwch a Lles. Bydd y Cyngor yn sicrhau, cyn belled fod hynny'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr pan fyddant yn y gwaith. Bydd hefyd yn sicrhau, cyn belled fod hynny'n rhesymol ymarferol, iechyd, diogelwch a lles eraill a allai gael eu heffeithio gan ei weithrediadau a'i weithgareddau.

Fel cyflogwr cyfrifol, ein nod yw cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974, ei reoliadau isradd a chodau ymarfer a gymeradwywyd. Ein nod hefyd yw cyflawni ein dyletswydd gofal dan y gyfraith gyffredin.

Byddwn yn:

- Asesu a rheoli'n ddigonol y risgiau sy'n deillio o'n gweithgareddau
- Rhoi systemau gwaith diogel priodol ar waith
- Ymgynghori â gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, Diogelwch a Lles.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol ar gyfer ein gweithwyr
- Darparu a chynnal offer a chyfarpar diogel
- Cynnal amodau gwaith diogel ac iach cyn belled fod hynny'n rhesymol ymarferol
- Ymdrechu i atal damweiniau ac achosion o afiechyd yn ymwneud â gwaith
- Sicrhau fod sylweddau peryglus yn cael eu trin, eu defnyddio a'u storio'n ddiogel
- Sicrhau fod pob gweithiwr yn gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu gwaith
- Cofnodi damweiniau a digwyddiadau a rhoi gwybod i'r awdurdod gorfodi amdanynt lle bo hynny'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth
- Monitro ac adolygu unrhyw systemau rydym yn eu cyflwyno at ddibenion rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles
- Gweithredu goblygiadau am fethu â chydymffurfio â safonau y cytunwyd arnynt

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

I sicrhau gweithrediad llwyddiannus y polisi hwn, byddwn yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad o frig y sefydliad a drwy gydol y gadwyn reoli. Disgwyliwn yr un ymrwymiad gan bob un o’n gweithwyr beth bynnag yw eu rôl.

Byddwn yn rhoi gwybod i bob un o’n gweithwyr am y safonau disgwyliedig ac yn cyflwyno system reoli i’w cefnogi nhw.

Byddwn yn ymdrechu i barhau i wella ein diwylliant diogelwch.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.



Graham Boase
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Ionawr 2025

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Geirfa

Gweler isod restr o fyrfoddau a diffiniadau a ddefnyddir yn y polisi hwn:

- IaDC - Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- CSDd– Cyngor Sir Ddinbych
- EDRMS - System Reoli Dogfennau a Chofnodion Electronig
- IaD - Iechyd a Diogelwch:
- IDaLl - Iechyd, Diogelwch a Lles
- Linc - Mewnrwyd CSDd
- RIDDOR –Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus
- CAS - Cofrestr Amddiffyn Staff
- SSOW – Systemau Gwaith Diogel
- SRhD - System Rheoli Diogelwch

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Sefydliad

Gweler isod hierarchaeth gyfathrebu’r sefydliad o ran Iechyd, Diogelwch a Lles:

### Rheoli

- Prif Weithredwr - Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig
- Aelodau Etholedig
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- Penaethiaid Gwasanaeth
- Rheolwyr Gweithredol (Canol)
- Pob Gweithiwr

### Cyngor Iechyd, Diogelwch a Lles

- Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth
- Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau
- Ymgynghorwyr Iechyd Galwedigaethol

Mae gan bob un o’r grwpiau uchod lwybr cyfathrebu agored i bob grŵp arall.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae gan y swyddi canlynol ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol ynghylch Iechyd, Diogelwch a Lles (IDaLl) o fewn Cyngor Sir Ddinbych (CSDd).

### Prif Swyddog Gweithredol

Y Prif Swyddog Gweithredol, fel yr Uwch Swyddog, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am IDaLl o fewn y sefydliad. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn:-

- Ceisio sicrhau fod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac yn cyflawni ei ddyletswydd gofal dan y gyfraith gyffredin
- Darparu arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad i gymell gwelliant parhaus yn niwylliant diogelwch y sefydliad
- Cyflwyno strwythur uwch-reoli yn nodi unigolion sydd â chyfrifoldebau IDaLl penodol
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu mewn perthynas ag IDaLl
- Sicrhau bod prosesau ymgynghori a chyfathrebu priodol mewn perthynas ag IDaLl rhwng y cyflogwr, gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar waith ac yn effeithiol

### Cyfarwyddwyr Corfforaethol

Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol:  Byddant yn:

- Darparu arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad i gymell gwelliant parhaus yn niwylliant diogelwch y sefydliad
- Cefnogi darpariaeth a chynnal trefniadau rheoli diogelwch y sefydliad
- Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i reoli IDaLl
- Sicrhau bod y cyfarfodydd iechyd a diogelwch dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am IDaLl yn cefnogi eu rheolwyr sydd â swyddogaethau IDaLl penodol ac yn cynnig canolbwynt ar lefel uwch ar gyfer materion IDaLl
- Sicrhau ymgynghoriaeth â gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, Diogelwch a Lles yn y gweithle

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Cynghorwyr Sir

Cynghorwyr Sir yw cynrychiolwyr gwleidyddol yr Awdurdod Lleol, maent yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd, sy'n golygu fod gan bob aelod etholedig gyfrifoldeb am sicrhau iechyd a diogelwch o fewn yr awdurdod.

Mae'r aelod arweiniol enwebedig sy'n gyfrifol am Iechyd a Diogelwch yn gweithredu fel 'hyrwyddwr' ac yn arwain yn y maes hwn.

Mae'r aelod arweiniol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng swyddogion a Chynghorwyr Sir.

## Penaethiaid Gwasanaeth

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn atebol i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol. Byddant yn:

- Darparu arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad i gymell gwelliant parhaus yn niwylliant diogelwch eu gwasanaethau
- Cefnogi darpariaeth a chynnal trefniadau rheoli diogelwch o fewn eu gwasanaeth
- Sicrhau bod cyfrifoldebau IDaLl pob gweithiwr yn cael eu cyfathrebu'n glir.
- Sicrhau bod y cyfarfodydd Gwasanaeth yn digwydd er mwyn rhannu gwybodaeth iechyd a diogelwch sy'n bwydo i mewn i gyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol.
- Sicrhau ymgynghoriaeth â gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, Diogelwch a Lles yn y gweithle
- Monitro ac adolygu effeithiolrwydd unrhyw brosesau a roddir ar waith

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Rheolwyr a Goruchwylwyr

Mae pob Rheolwr a Goruchwyliwr yn atebol drwy eu rheolwr atebol i’w Penaethiaid Gwasanaeth am sicrhau bod y trefniadau ar waith ar gyfer IDaLl yn cael eu dehongli'n gywir a’u gweithredu’n gadarn. Byddant yn:

- Darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad cadarn i IDaLl eu gweithwyr drwy nodi’r peryglon sy’n ymwneud â’u gweithrediadau a’r gweithle. Asesu, gwerthuso a chofnodi'r risgiau a lliniaru’r risgiau hynny drwy weithdrefnau adrannol priodol a dulliau gweithio diogel
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol a digonol i weithwyr ynghylch peryglon, risgiau a mesurau rheoli a ddefnyddir yn y gweithle
- Sicrhau ymgynghoriaeth â gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, Diogelwch a Lles yn y gweithle
- Annog amgylchedd cydweithredol rhwng y cyflogwr a'r gweithwyr
- Sicrhau fod pob damwain a digwyddiad yn cael eu hadrodd a'u cofnodi cyn gynted ag y bo'n ymarferol
- Ymchwilio i bob anaf a damwain a sicrhau y caiff camau unioni eu gweithredu lle bo angen
- Monitro cydymffurfiad â, ac adolygu effeithiolrwydd unrhyw brosesau a roddir ar waith
- Cymryd camau lle nodir methiant i gydymffurfio â safonau
- Sicrhau ymgynghoriaeth â gweithwyr, undebau cydnabyddedig a chynrychiolwyr gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu Hiechyd, Diogelwch a Lles yn y gweithle

## Penaethiaid

Rheolir ein hysgolion gan Benaethiaid sy’n gweithio’n agos gyda Llywodraethwyr Ysgol. Mae Penaethiaid a Llywodraethwyr yn gyfrifol ar y cyd am IDaLl yn eu hamgylcheddau gwaith. Caiff Penaethiaid a Llywodraethwyr eu cefnogi gan CSDd ac mae’r tîm IaDC yn darparu cefnogaeth IDaLl iddynt. Bydd Penaethiaid yn:-

- Rheoli pob agwedd ar reolaeth IDaLl yn eu hysgol fel y disgrifir yng nghyfrifoldebau “Penaethiaid Gwasanaeth” a “Rheolwyr a Goruchwylwyr"

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Gweithwyr

Mae gweithwyr yn atebol i'w Rheolwyr Atebol a byddant yn cydymffurfio â'n systemau gwaith a rhoddir cyfarwyddiadau er budd IDaLl. Mae ein gweithwyr yn cael eu grymuso i gymryd camau i leihau risgiau IDaLl. Byddant yn:

- Cymryd gofal rhesymol am eu hunain ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu eu hanweithiau yn unol â disgwyliadau
- Cydweithredu â'u cyflogwr mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau statudol a chyflawni eu dyletswydd gofal dan y gyfraith gyffredin
- Rhoi gwybod i'w rheolwr atebol am bob anaf, digwyddiad, achos peryglus a damwain a fu bron â digwydd.

## Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (IaDC)

Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Prif Weithredwr, Cynghorwyr Sir, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr, Goruchwylwyr a Gweithwyr fel y bo'n briodol. Byddant yn:

- Cynnig ffocws ar gyfer arweinyddiaeth IDaLl, cyngor a chymorth i holl weithwyr CSDd
- Hyrwyddo ymgynghoriad IDaLl rhwng y cyflogwr, gweithwyr, eu hundebau cydnabyddedig a'u cynrychiolwyr gweithwyr.
- Datblygu ac adolygu polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a chanllawiau IDaLl priodol
- Datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant IDaLl
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau/digwyddiadau ac ymchwilio iddynt, a bod adroddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
- Gweinyddu'r Adolygiad Perfformiad Gwasanaeth ar ran y Cyngor Sir

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Iechyd Galwedigaethol

Darperir cefnogaeth Iechyd Galwedigaethol drwy Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol CSDd. Eu rôl yw darparu arweiniad a chefnogaeth ar Iechyd Galwedigaethol a Lles. Ar gais, byddant yn:

- Cynghori rheolwyr a gweithwyr ynghylch materion yn ymwneud ag iechyd a gweithio ymhellach ar bryderon iechyd yn dilyn atgyfeiriad gan y rheolwr
- Cydweithio â rheolwyr a chynghori ar addasiadau rhesymol ac ymarferol i weithwyr â chyflyrau iechyd
- Cynnal gwyliadwriaeth iechyd pan fo hynny'n berthnasol yn unol â gofynion asesu risg rheolwyr
- Atgyfeirio at y Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar gyfer cymorth cwnsela lle bo hynny'n briodol
- Darparu gwybodaeth addysgol ynghylch materion iechyd a lles e.e. alcohol, ysmygu, diet ac ati.

## Rheolwyr Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth

Mae Rheolwyr Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth yn darparu cyngor cymwys o fewn eu meysydd cymhwysedd penodol a'u Gwasanaethau. Byddant yn:

- Darparu cyngor IDaLl gweithredol o fewn eu maes arbenigedd
- Sicrhau bod systemau IDaLl effeithiol ar waith o fewn eu maes gwasanaeth
- Gweithio a chyfathrebu gyda'r tîm IaDC lle bo hynny'n briodol
- Sicrhau bod asesiadau risg a Systemau Gwaith Diogel yn cael eu datblygu a'u hadolygu yn eu meysydd

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau

Mae Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau'n cynrychioli gweithwyr ynghylch materion IDaLl yn y gwaith.

Byddant yn:

- Cefnogi gweithwyr ar faterion IDaLl lle bo hynny'n briodol
- Cymryd rhan weithredol mewn ymchwiliadau iechyd a diogelwch
- Ymgynghori a chydweithredu gyda rheolwyr ac ymgynghorwyr iechyd a diogelwch i hyrwyddo a datblygu mesurau i sicrhau IDaLl eu cydweithwyr
- Mynychu pwyllgorau a chyfarfodydd IDaLl
- Cymryd rhan mewn/cynnal teithiau diogelwch yn ôl yr angen

# Trefniadau

Mae'r adran drefniadau yn y polisi'n disgrifio'r hyn yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein hamcanion IDaLl. Rydym wedi cyflwyno System Rheoli Diogelwch (SRhD) fel modd o reoli pob agwedd ar ddiogelwch drwy gydol y sefydliad.

Mae'r SRhD yn cynnig proses systematig, benodol a chynhwysfawr a gaiff ei phlethu i wead ein sefydliad.

Mae elfennau'r SRhD yn cynnwys:-

- Y Polisi IaD Corfforaethol ei hun
- Pobl uwch gyda chyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo am IDaLl (Aelod etholedig arweiniol o'r Cyngor, Cyfarwyddwr a Phennaeth Gwasanaeth a enwebwyd)
- Tîm ymgynghorol IaD proffesiynol
- Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth a Chynrychiolwyr Diogelwch Undebau
- Proses adrodd ac ymchwilio i ddamweiniau / digwyddiadau ar-lein / ar Linc
- Proses gofrestru diogelwch staff ar-lein / ar Linc
- Cofrestr risg gorfforaethol
- Dogfennau canllawiol ar-lein / ar Linc yn cefnogi asesiadau risg a system ddiogel o ddatblygu gwaith
- Cynllun gweithredu a chynllun hyfforddiant IaDC.
- Rheoli prosesau comisiynu a monitro contractwyr

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Polisi a Chynllunio

### Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Polisi IDaLl Corfforaethol yn nodi bod CSDd yn anelu at gydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 a'r is-ddeddfwriaeth, felly nid oes angen datganiadau polisi pellach ar gyfer darnau unigol o ddeddfwriaeth.  Rhoddir pwyslais yn lle hynny ar ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ar sut i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach yn y gweithle, cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chyflawni ein dyletswydd gofal dan y gyfraith gyffredin.

Bydd y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan y tîm IaDC.

### Cofrestr Risg Gorfforaethol

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol ar waith i fanylu ar risgiau busnes a rheoleiddio a allai effeithio ar bob Gwasanaeth yn y sefydliad. Caiff y gofrestr ei chrynhoi o bob risg busnes a chynlluniau busnes lefel Gwasanaeth.

### Rheoli Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol IaDC wedi'u halinio ag anghenion y sefydliad ac wedi'u cynnwys fel rhan o'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol:  Pobl - cynllun gwasanaeth blynyddol.

### Cynllunio Rhag Argyfwng a Chadernid Corfforaethol

Hwylusir cynllunio rhag argyfwng ar lefel gorfforaethol a pharodrwydd am ddigwyddiadau sifil posibl gan yr Uned Gynllunio Rhag Argyfwng ar y Cyd ranbarthol.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

### Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr

Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Uwch Dîm Rheoli, Aelodau Etholedig, Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Undebau Cydnabyddedig a Chynrychiolwyr Gweithwyr. Bydd y Pwyllgor yn ystyried materion corfforaethol, yn archwilio cofnodion unrhyw gyfarfodydd Iechyd a Diogelwch lefel Gwasanaeth / Cyfarwyddwyr ac yn adolygu camau a gwblhawyd neu unrhyw gamau sy'n weddill.

### Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Cyfarwyddwyr

Bydd pob Cyfarwyddwr yn arwain eu cyfarfod grŵp Iechyd a Diogelwch eu hunain lle bydd eu Penaethiaid Gwasanaeth a'u rheolwyr, cynrychiolwyr undebau/gweithwyr a chynrychiolwyr o'r tîm Iechyd a Diogelwch yn bresennol. Caiff y cofnodion o'r cyfarfodydd hyn eu rhannu a'u trafod yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Gweithwyr.

### Cyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch Adrannol/Gwasanaeth

Lle mae Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwyr yn nodi bod angen cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Adrannol a/neu Gwasanaeth, bydd y cyfarfodydd hynny'n cael eu rheoli o fewn strwythur y Fframwaith Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth lleol. Bydd cofnodion y cyfarfodydd yn cael eu cofnodi at sylw'r Pwyllgor Grŵp Gwasanaeth a'u cyfathrebu i weithwyr.

### Rheolwr Iechyd a Diogelwch Cyfleuster Unigol

Lle mae cyfleuster yn gweithredu'n annibynnol dan reolaeth rheolwyr lleol (e.e. ysgol, ffatri neu gartref gofal), bydd trefniadau lleol ar waith. Byddai datganiad Polisi'r Prif Weithredwr yn cael ei gyfeirio ato fel nod cyffredin gyda sefydliad rheoli lleol a'r trefniadau'n cael eu rhestru ar ffurf leol briodol.

## Trefniadau Sefydliadol:

### Dogfennau Canllawiol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Caiff dogfennau canllawiol IDaLl corfforaethol eu paratoi gan y tîm IaDC i amlygu gofynion allweddol deddfwriaeth iechyd a diogelwch e.e. asesu risg, rheoli sylweddau peryglus, gyrru ar gyfer

gwaith a gweithio’n annibynnol ac ati.  Mae dogfennau Canllawiau Corfforaethol yn berthnasol i bob gwasanaeth a phob gweithiwr.

## Ffurflenni a Thempledi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae dogfennau, ffurflenni, templedi ac enghreifftiau wedi’u gweithio ar gyfer gweithgarwch IDaLl, megis asesiadau risg, rhoi gwybod am ddamweiniau a theithiau diogelwch ac ati ar gael yn electronig.  Lle bo angen, mae cefnogaeth bersonol a chyngor ar gael.

## Fflach Newyddion Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Bydd Fflachiadau Newyddion yn cael eu paratoi a’u cyfathrebu i rannau perthnasol o’r sefydliad drwy e-bost, ar Linc a llwybrau rheoli lleol fel y bo’n briodol. Nod y fflach newyddion yw bod yn fodd o gyfathrebu newyddion brys yn gyflym o amgylch y sefydliad.

## Dogfennau Ymgynghori Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Bydd y Polisi IaD Corfforaethol yn cael ei adolygu’n rheolaidd.   Bydd y polisi diwygiedig ar gael i holl aelodau’r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch a Chysylltiadau Gweithwyr, Aelodau'r Cyngor, Uwch Arweinyddiaeth, Cynrychiolwyr Undeb a gweithwyr ar gyfer ymgynghori cyn i'r Cyngor ei gadarnhau'n ffurfiol a'i ddosbarthu'n gyffredinol. Bydd pob dogfen arall a gaiff eu paratoi gan IaDC yn cael eu rhyddhau i bwyllgorau perthnasol a phartïon cysylltiedig ar gyfer ymgynghori cyn eu rhyddhau'n gyffredinol.

## Dogfennau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (Gweinydd Rhwydwaith a’r Fewnrwyd)

Bydd dogfennau IaDC sy’n rhan o’r system reoli iechyd a diogelwch yn cael eu storio’n ganolog ar yriant adrannol cyffredin. Bydd cynnwys ac adolygiadau’r dogfennau’n cael eu rheoli’n briodol ac ar gael yn ddwyieithog a, lle bo modd, ar fformat hygyrch ar y dudalen IaDC ar Linc.  Bydd ffurflenni a thempledi ar gael ar ffurf electronig heb ei reoli, y gellir ei olygu a’i lawrlwytho er mwyn ei ddefnyddio ar unwaith.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) CIVICA

Defnyddir System EDRMS CIVICA i gefnogi unrhyw brosesau iechyd a diogelwch yn ymwneud â rhoi gwybod am ddamweiniau/digwyddiadau.

## Poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch a Hysbysfyrddau

Bydd posteri cyfraith iechyd a diogelwch yn cael eu harddangos yn amlwg yng nghyfleusterau Sir Ddinbych. Mewn cyfleusterau lle nad oes gan weithwyr fynediad arferol at gyfrifiaduron, a lle bo hynny'n ymarferol, at gyfleusterau eraill, bydd hysbysfyrddau iechyd a diogelwch yn cael eu gosod i arddangos copïau caled o wybodaeth iechyd a diogelwch.

## Cymhwysedd

Bydd gofynion cymhwysedd ar gyfer swyddi unigol yn cael eu diffinio yn y swydd-ddisgrifiadau fel rhan o broses recriwtio Adnoddau Dynol (AD)

## Matrics Hyfforddiant Corfforaethol

I sicrhau'r elfen cymhwysedd o ran hyfforddiant, mae matrics hyfforddiant Iechyd a Diogelwch wedi cael ei ddatblygu gan restru cyfrifoldebau swyddi (o'r Prif Weithredwr i Wirfoddolwyr). Nodir hyfforddiant a argymhellir ar gyfer pob grŵp o swyddi yn y matrics. Mae cyrsiau hyfforddi yn ymwneud ag IaD yn cael eu darparu neu eu trefnu gan y tîm IaDC. Cytunir ar anghenion hyfforddiant rhwng Rheolwyr Atebol a gweithwyr fel rhan o'r trafodaethau 1:1 neu eu nodi drwy asesiad risg a'i archebu gyda'r tîm IaDC.

## Rhaglen Cwrs Hyfforddiant Corfforaethol

Datblygwyd y rhaglen hyfforddiant iechyd a diogelwch blynyddol i fodloni'r galw a gynhyrchwyd gan y Matrics Hyfforddiant. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyrsiau mewnol ac allanol ac fe'i rheolir gan IaDC. Bydd cyrsiau hyfforddiant a chyflwyniad diogelwch penodol ac unigryw yn cael eu datblygu a'u darparu yn ddibynnol ar y galw.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Cymhwysedd Darparwr Hyfforddiant

Bydd cymhwysedd darparwr hyfforddiant allanol a hyfforddwyr unigol yn cael ei gadarnhau cyn unrhyw gyrsiau hyfforddiant. Bydd pob hyfforddiant iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu gan Ymarferwyr Iechyd a Diogelwch cymwys.

## Cofnodion Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

iTrent yw'r system AD Corfforaethol ar gyfer cofnodi gwybodaeth personol. Bydd cofnodion digwyddiadau hyfforddiant iechyd a diogelwch y mae gweithwyr yn mynd iddynt yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio system cronfa ddata iTrent.

## Cynrychiolwyr Undebau IaD

Ymgynghorir â Gweithwyr, Undebau Cydnabyddedig a Chynrychiolwyr Gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles.

## Asesiad Risg

Yn unol â Rheoli Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle, bydd pob Rheolwr Gwasanaeth a Gweithredol yn sicrhau fod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu cwblhau ar gyfer risgiau i IDaLl gweithwyr ac eraill nad ydynt yn cael eu cyflogi gan CSDd.
Bydd yr asesiadau risg yn cael eu cofnodi a'u hadolygu pan fo hynny'n briodol. Mae'r asesiadau risg yn gyfrifoldeb i reolwyr atebol ond gallai'r dasg gael ei dirprwyo i berson(au) cymwys sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad o'r gweithgarwch gwaith.

## Asesiadau Risg Tân

Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch Eiddo yn rhannu'r dasg o gynnal asesiadau arbenigol ar gyfer risg tân ym mhob eiddo y mae'r Sir yn berchen arnynt ac eiddo eraill y gallai Gweithwyr y Cyngor a Defnyddwyr Gwasanaethau eu defnyddio. Mae'r asesiadau risg tân hyn yn ofynnol dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Mesurau Rheoli

Yn ddieithriad, bydd asesiadau risg yn nodi camau ychwanegol i leihau risg ymhellach. Bydd pob mesur rheoli a gweithred o'r fath yn cael eu cofnodi, eu dynodi i berchennog gweithred a rhoddir dyddiad cwblhau disgwyliedig iddynt. Defnyddir dulliau canfod peryglon, risg a mesurau rheoli i hwyluso datblygiad systemau gwaith diogel.

## Systemau Gwaith Diogel (gweithdrefnau gweithio'n ddiogel)

Lle mae angen mesurau rheoli risg ffurfiol, bydd systemau gwaith diogel (SSoW) yn cael eu datblygu, eu cyflwyno, eu monitro a'u diwygio fel bo'r angen. Bydd y rheolwr atebol yn sicrhau fod SSoW yn cael eu rhannu gyda gweithwyr a chyfarwyddiadau'n cael eu dilyn. Mae SSoW yn cael eu paratoi gan unigolion cymwys.

## Hawlen i Weithdrefnau a Systemau Gwaith

Mae system hawlen i weithio yn system ffurfiol, ysgrifenedig a ddefnyddir fel rhan o system weithio diogel i reoli mathau penodol o waith a allai fod yn beryglus. Mae gan IaDC dempled o'r hawlen i weithio ar gyfer gwaith a nodwyd yn waith risg uchel (e.e. gweithio mewn mannau cyfyngedig, mynediad i'r to), gellir dod o hyd i'r hawlen ar Linc.  Bydd IaDC yn cefnogi rheolwyr gweithredol i roi systemau rheoli digonol ar waith yn ôl yr angen.

## Systemau Gweithio ar eich Pen eich Hun

Nid oes gan weithiwr sy'n gweithio ar ei ben ei hun neb yn ei oruchwylio'n agos nac yn uniongyrchol, naill ai am gyfnod byr neu am gyfnod hir o amser. Bydd CSDd, drwy'r gadwyn rheoli atebol ar lefel weithredol yn sicrhau yr asesir risgiau sy'n ymwneud â gweithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a bydd yn cymryd camau priodol i reoli'r risgiau.

## Gweithio'n Hyblyg

Gweithio'n hyblyg yw'r cyfuniad o weithio yn y swyddfa ac o leoliadau eraill. Bydd y rhaniad yn wahanol ar gyfer pob maes gwasanaeth ond mae disgwyl i rai gweithwyr weithio o fwy nag un lleoliad yn ystod yr wythnos, gan gymryd camau priodol i reoli'r risgiau. Mae dogfennau canllawiol a thempledi dwyieithog ynghlwm â gweithio'n hyblyg ar gael ar dudalen IaDC ar Linc.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Gweithdrefnau Rheoli Contractwyr

Asesir cymhwysedd pob Contractwr, Ymgynghorydd a Chyflenwr sy’n gwneud gwaith ar gyfer CSDd gan y swyddogion comisiynu. Defnyddir holiadur cyn-cymhwyso fel rhan o broses gaffael Proactis. Bydd swyddogion comisiynu, rheolwyr prosiect a’u timau’n gyfrifol am sicrhau cymhwysedd contractwyr ac yn monitro perfformiad contractwyr drwy gydol eu cyfnod ymgysylltu. Bydd gofyn i gontractwyr asesu risg eu gweithgareddau a darparu system weithio diogel a gytunwyd arni. Bydd gwaith contractwyr yn cael ei ddiffinio a’i gyfyngu gan atodlen.

## Parodrwydd am Argyfwng

Hwylusir gweithdrefnau brys ar gyfer digwyddiadau mawr ac argyfyngau sifil posib’ ar lefel gorfforaethol gan yr Uned Cynllunio Rhag Argyfwng ar y Cyd ranbarthol. Bydd y Sefydliad yn paratoi gweithdrefnau a chanllawiau at argyfwng.

Ar gyfer cynlluniau argyfwng lleol, mae templed generig wedi’i ddarparu ar Linc. Mae meysydd Gwasanaeth ac Adrannol yn paratoi gweithdrefnau argyfwng lleol ar gyfer eu gweithrediadau yn seiliedig ar eu risgiau unigol dynodedig. Bydd Rheolwyr Adeiladau’n paratoi gweithdrefnau argyfwng yn seiliedig ar y risgiau lleol sydd wedi’u dynodi yn eu cyfleusterau.

## Mesur ac Adolygu

Bydd y trefniadau a gyflwynir ar gyfer iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu’n weithredol drwy gyfuniad o fonitro rhagweithiol ac adweithiol i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn galluogi amcanion y polisi iechyd a diogelwch i gael eu cyflawni.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Adrodd ar Ddamweiniau / Digwyddiadau

Mae CSDd yn defnyddio proses adrodd ar ddamweiniau/digwyddiadau drwy'r dudalen IaDC ar Linc.

Cofnodir pob damwain a digwyddiad a rhoddir gwybod i'r tîm IaDC gan ddefnyddio'r system roi gwybod ar-lein. Lle nad yw'n ymarferol i gael mynediad uniongyrchol at y system roi gwybod ar-lein, mae ffurflen ar gael ar bapur fel mesur dros dro nes bydd modd cael mynediad i'r system ar-lein. Rhoddir gwybod am ddigwyddiadau unwaith fod hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad.

Adroddir am ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod amdanynt dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gan y tîm IaDC.

Bydd gwybodaeth ystadegol ynghylch pob damwain / digwyddiad ac adroddiadau RIDDOR yn cael eu casglu a rhoddir gwybod i bwyllgorau diogelwch amdanynt. Bydd y data hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddod o hyd i dueddiadau a gwybodaeth arall a fydd yn cael ei defnyddio fel modd o dargedu, dileu a lleihau'r tebygolrwydd o broblemau a fydd yn codi fwy nac unwaith.

## Ymchwilio i Ddamweiniau

Bydd pob damwain a digwyddiad yn cael eu hymchwilio yn gymesur i ddechrau gan y rheolwr atebol / goruchwylydd Gweithredol. Mae gan gynrychiolwyr iechyd a diogelwch undebau cydnabyddedig yr hawl i archwilio achosion damweiniau'r gweithlu ac felly gallent fod yn rhan o'r ymchwiliad. Bydd lefel unrhyw ymchwiliad ac adrodd yn gymesur â difrifoldeb, neu ddifrifoldeb posibl, y digwyddiad penodol. Bydd y tîm IaDC yn ymchwilio ymhellach i ddigwyddiadau lle ystyrir bod angen ymchwiliad mwy llawn a phob digwyddiad RIDDOR.-

Lle mae ymweliad, ymchwiliad neu gynllun gan yr Awdurdod Gweithredol yn arwain at yr angen am rywfaint o weithredu, bydd y tîm IaDC yn darparu ymateb addas a chydag adnoddau penodol neu'n cydlynu ymateb ar Lefel Gwasanaeth i'r Awdurdod Gweithredol fel y bo'n briodol. Bydd unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac ymchwiliadau yn cael eu defnyddio i gefnogi camau unioni i atal yr un peth rhag digwydd eto. Os bydd Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i ddamweiniau, mae'n arfer cyffredin iddynt gynnwys cynrychiolwyr undebau cydnabyddedig neu gynrychiolwyr y gweithwyr.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Cofrestr Amddiffyn Staff (CAS)

Mae'r CAS yn ddarpariaeth ar gyfer rhybuddion am unigolion, cyfeiriadau a sefyllfaoedd a all beryglu staff. Proses Cyngor Sir Ddinbych yw bod unrhyw wybodaeth am beryglon i staff, ynghylch unigolion peryglus neu dreisgar, neu ynghylch peryglon amgylcheddol, yn cael ei ystyried gan staff iechyd a diogelwch. Mabwysiadir agwedd gymesur, gan sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei chylchredeg at ddibenion iechyd a diogelwch oni bai ei fod yn gywir, yn wrthrychol ac wedi'i dylunio'n benodol i amddiffyn staff.

Mae CSDd yn defnyddio proses adrodd ar-lein drwy'r dudalen IaDC ar Linc.

## Cwynion

Bydd unrhyw gwynion a geir mewn perthynas â darpariaethau neu arferion IDaLl yn cael eu hymchwilio a bydd camau priodol yn cael eu cymryd.

## Teithiau Diogelwch

Mae teithiau diogelwch yn rhan o'r broses fonitro ragweithiol. Bydd teithiau diogelwch yn cael eu cynnal ar lefel weithredol ac yn cynnwys rheolwyr, cynrychiolwyr undebau llafur a gweithwyr fel y bo'n briodol. Bydd y tîm IaDC hefyd yn cymryd rhan mewn teithiau diogelwch fel rhan o raglenni monitro. Bydd teithiau diogelwch yn cael eu cofnodi a byddant yn arwain at gynllun gweithredu, cyngor diogelwch ac adroddiad ffurfiol gyda chamau a gyfyngir o ran amser.

## Iechyd yn ymwneud â Gwaith

Bydd risgiau Iechyd Galwedigaethol yn cael eu hasesu. Lle nodir risg arwyddocaol i iechyd, bydd camau'n cael eu cymryd i atal, lleihau a rheoli'r risgiau i lefel dderbyniol. Lle nodir bod angen goruchwyliaeth iechyd drwy asesiad risg neu ei amlygu ar ffurflen ddatganiad iechyd dechreuwyr newydd, bydd goruchwyliaeth iechyd priodol yn cael ei gyflwyno gan y darparwr Iechyd Galwedigaethol. Rhoddir gwybod i'r gweithiwr a'u rheolwr atebol am ganlyniadau'r Oruchwyliaeth Iechyd gyda chamau gweithredu a argymhellir. Bydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi ar nodiadau achos y gweithiwr gan ddefnyddio'r gronfa ddata EDRMS a bydd y gweithiwr yn cael ei fonitro ymhellach ar amlder a gytunir arno.

# Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol

## Archwiliad

Bydd archwiliadau ffurfiol o systemau a phrosesau rheoli IDaLl yn cael eu cynnal gan y Tîm Archwilio Mewnol fel rhan o'u proses archwilio barhaus. Bydd cynllun archwilio yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i fonitro gweithgareddau a chydymffurfiaeth o fewn adrannau.

Mae'r Polisi wedi'i ddiwygio, ei ddyddio a'i lofnodi ar gael ar Linc.